

**Arolygiad Iechyd Meddwl /
Anabledd Dysgu
[Dirybudd]
Ysbyty Rushcliffe**

23 – 24 Mehefin 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	8
	Safonau Craidd.....	8
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	14
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'i phenodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial

- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeiriadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC arolygiad Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu dirybudd a dilynol ag Ysbyty Rushcliffe, Aberafan, gyda'r nos ar 23 Mehefin a thrwy'r dydd ar 11 a 24 Mehefin 2015.

Cofrestrwyd Ysbyty Annibynnol Rushcliffe (Aberafan) ('Rushcliffe') gydag AGIC yn gyntaf ar 8 Gorffennaf 2009, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gofal i 16 o gleifion gwrywaidd. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) ar gyfer unigolion sydd wedi cael prif ddiagnosis o salwch meddwl. Darparwr cofrestredig yr ysbyty yw Rushcliffe Independent Hospitals (Aberavon) Limited.

Yn ystod yr arolygiad, a barodd ddau ddiwrnod, gwnaethom adolygu'r ward a'r cofnodion claf, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, ac un aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Tynnodd ein hymweliad ag Ysbyty Rushcliffe sylw at welliannau ers ein harolygiad ym mis Chwefror 2015. Fodd bynnag, roedd angen gwella o hyd, a gwnaethom nodi nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnynt.

Cafwyd nifer o newidiadau i'r uwch-reolwyr a'r tîm amlddisgyblaethol. Penododd Ysbyty Rushcliffe reolwr newydd i'r ysbyty ym mis Mai 2015.

O ran yr amgylchedd, roeddem yn falch o weld safon glendid uchel iawn trwy'r ysbyty cyfan. Roedd y dodrefn a'r addurno o safon dda, ac roedd y cyfleusterau ar gael i gleifion yn dda iawn, gan gynnwys ystafell gerddoriaeth gydag offerynnau, ystafell chwaraeon gyda bwrdd pŵl, campfa, a dwy lolfa. Fodd bynnag, fel gyda'n harolygiad ym mis Chwefror 2015, nid oedd y cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio digon, a phrin oedd y gweithgareddau strwythuredig a gynhelid yn yr ysbyty.

Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol yn dal i fod heibio'r dyddiad diweddar. Fodd bynnag, roedd rheolwr yr ysbyty wedi rhoi rhaglen hyfforddiant ar waith a fyddai'n mynd i'r afael â'r diffygion hyn. Cyflwynwyd rhaglen oruchwyliaeth reolaidd ar gyfer y staff yn ddiweddar.

Tynnodd dogfennau cynllunio gofal sylw at feysydd sydd angen sylw er mwyn sicrhau bod staff yn gallu cyrchu gwybodaeth am gleifion yn hawdd.

Trwy gydol yr ymweliad, gwelsom fod rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn dda.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y wardiau

Mae Ysbyty Rushcliffe ar lan y môr yn Aberafan. Mae'r adeilad ar un llawr, ac mae mynediad i'r ysbyty trwy dderbynfa. Mae'r dderbynfa yn ardal fawr, olau gyda dwy ystafell ar gyfer ymwelwyr/cyfarfodydd ac ystafell ymgynghori i feddygon. Mae mynediad i'r ward trwy gyfrwng system aerglo sy'n arwain at fan agored ar ffurf atriwm. Roedd byrddau a chadeiriau yng nghanol yr ardal sy'n cael ei defnyddio fel ardal fwyta'r cleifion. O amgylch yr ardal fwyta, roedd ffenest weini'r gegin, swyddfa'r nyrs, adnoddau cegin ar gyfer gwneud diodydd poeth, a swyddfa arall.

Mae Rushcliffe wedi'i rhannu'n ddwy, ac mae wyth ystafell wely sengl en suite ym mhob rhan. Roedd yn gadarnhaol nodi bod cloeon newydd wedi cael eu gosod ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion ers ein harolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2015, ac roedd hyn yn galluogi'r holl gleifion i gloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn; roedd y staff yn gallu eu hagog pe bai angen. Roedd maint ystafelloedd gwely'r cleifion yn briodol, ac roeddent yn gallu eu personoli â'u heiddo eu hunain. Roedd gan y cleifion ddigon o le yn eu hystafelloedd gwely ar gyfer storio, a phe bai angen, roedd cyfleusterau storio dan glo ychwanegol yn yr ysbyty at ddefnydd y cleifion.

Roedd dwy lolfa at ddefnydd y cleifion, lolfa dawel gyda theledu, a'r brif lolfa, a oedd gyferbyn â'r ardal atriwm agored gyda golygfeydd dros y môr.

Roedd un ystafell ymolchi ar gael at ddefnydd y cleifion. Rhoddwyd cymhorthion symudedd yn yr ystafell ers ein harolygiad ym mis Chwefror, ac roedd hyn yn galluogi rhai cleifion i fod yn fwy annibynnol wrth ymolchi. Roedd drws yr ystafell ymolchi wedi cael ei drwsio ers ein harolygiad diwethaf hefyd.

Roedd hysbysfyrddau wedi eu harddangos yn y brif lolfa a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis amserlen ddyddiol a grwpiau a dyddiadau tîm amlddisgyblaethol. Roedd hysbysfwrdd cymunedol y cleifion yn dangos gwybodaeth am eiriolaeth, amserlenni bysys, a blwch adborth/awgrymiadau cleifion. Roedd papurau newydd dyddiol yn cael eu darparu i gleifion eu darllen.

Roedd yr amgylchedd yn lân iawn ar y cyfan. Roedd safon y dodrefn a'r addurno'n dda ledled yr ysbyty, ac roedd rhai lluniau ar y waliau yn y coridorau.

Diogelwch

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod y lefelau staffio'n cydymffurfio â'r lefelau isaf a nodir yn Natganiad o Ddiben diweddaraf yr ysbyty, a ddyddiwyd Awst 2012.

Tynnodd ein harolygiad ym mis Chwefror sylw at y ffaith nad oedd digon o larymau ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr. Gweithredodd y darparwr cofrestredig ar y diffyg hwn, a phrynwyd larymau ychwanegol.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd amgylchedd cymharol ddigynnwrf yn yr ysbyty. Gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd briodol pan oedd angen, gan ddefnyddio technegau gwrthdynnu sylw a dad-ddwysáu.

Gwnaethom nodi man mewn Ysbyty Rushcliffe a oedd yn peri risg clymiad amlwg, a rhannwyd y wybodaeth hon â'r darparwr cofrestredig ar adeg ein harolygiad. Mae angen cael gwared ar y risg hon.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y risg clymiad yn cael ei gwaredu.

Y tîm amlddisgyblaethol

Ers ein harolygiad ym mis Chwefror, gwnaed nifer o newidiadau i dîm rheoli'r ysbyty a'r tîm amlddisgyblaethol. Penodwyd rheolwr newydd ar gyfer Ysbyty Rushcliffe ym mis Mai 2015, ac roedd wrthi'n ymgeisio i AGIC ar gyfer swydd y rheolwr cofrestredig.

Roedd dau glinigydd cyfrifol newydd ar gyfer Rushcliffe ar fin dechrau ym mis Gorffennaf 2015, ac roedd y clinigydd cyfrifol presennol yn gadael ei swydd. Bydd y ddau glinigydd cyfrifol newydd yn rhannu'r dyletswyddau ar-alwad. Gwnaethom nodi ym mis Chwefror nad oedd y trefniadau ar-alwad yn ddigonol, ac roedd yr un clinigydd cyfrifol ar-alwad 24/7 i bob pwrpas.

Roedd yr ysbyty wedi penodi therapydd galwedigaethol newydd i lenwi'r swydd wag a adawyd gan y therapydd galwedigaethol blaenorol, a adawodd ar 9 Mehefin 2015. Fodd bynnag, nid oedd y therapydd galwedigaethol newydd yn ei swydd am ei fod yn gweithio ei gyfnod rhybudd â'i gyflogwr presennol. Yn ogystal â'r therapydd galwedigaethol, byddai'r ysbyty'n recriwtio cydgysylltydd gweithgareddau. Bydd y therapydd galwedigaethol newydd hwn yn cyfrannu at y broses o recriwtio cydgysylltydd gweithgareddau.

Roedd y darparwr cofrestredig wrthi'n recriwtio nyrsys cofrestredig ychwanegol i Ysbyty Rushcliffe, ac roedd cyfweiliadau wedi eu trefnu ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf. Roedd nyrsys yr ysbyty'n cynnwys pum nyrs

iechyd meddwl gofrestredig, dwy nyrs anabledau dysgu gofrestredig, a'r dirprwy reolwr a'r rheolwr cofrestredig, ill dau'n nyrsys iechyd meddwl cofrestredig. Fe'n hysbyswyd bod nyrs breceptorïaeth yn mynd i ddechrau ym mis Gorffennaf 2015. At hynny, roedd y darparwr cofrestredig wrthi'n recriwtio i lenwi swyddi gweithwyr cymorth.

Yn dilyn ein harolygiad ym mis Chwefror, roedd y cyfraniad gan seicolegwyr i Ysbyty Rushcliffe wedi cynyddu i bedwar diwrnod yr wythnos.

Roedd yn glir bod Ysbyty Rushcliffe yn datblygu tîm amlddisgyblaethol newydd a bod newidiadau'n digwydd yn yr ysbyty. Dywedodd y staff fod y cyfarfodydd yn datblygu'n barhaus o ganlyniad i hyn, gan fod gan bawb syniadau gwahanol. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y tîm amlddisgyblaethol, a dywedwyd bod ysbryd cyd-dynnu dda. Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, ac roedd y staff yn teimlo bod eu barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi gan y lleill.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad i AGIC ynglŷn â'r broses recriwtio ar gyfer y swyddi a nodir uchod.

Hyfforddiant

Roedd y rheolwr ysbyty a benodwyd yn ddiweddar yn ymwybodol o'r diffygion sylweddol y tynnwyd sylw atynt yn ystod ein harolygiad ym mis Chwefror o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd wedi datblygu rhaglen o hyfforddiant staff ar gyfer y misoedd sydd i ddod er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hyfforddiant roedd staff yr ysbyty wedi'i dderbyn.

Gwnaeth y staff grybwyll pryderon ynglŷn â rhai o'r deunydd hyfforddiant a roddwyd iddynt gan y darparwr cofrestredig; roedd rhywfaint o'r deunydd yn cynnwys rhannau mawr am ofal i bobl hŷn, ac nid oedd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Rushcliffe.

Gwnaethom adolygu naw set o ffeiliau staff, a gwnaethom nodi eu bod wedi eu trefnu'n daclus. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth eang o wybodaeth am gyflogaeth i gadarnhau bod penodiadau wedi eu gwneud trwy broses agored, gan gynnwys ffurflenni cais, nodiadau cyfweiliad, disgrifiad swydd, llythyr cynnig, contract, a geirdaon. Roedd gan wyth o'r naw ffeil a adolygwyd dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gynnal ar ryw adeg. Yn debyg i'n harolygiad ym mis Chwefror, roedd rhai o'r ffeiliau staff yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd dros dair blynedd oed. Ni

chynhyrchwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod gwiriad cyfredol ar waith. Byddai AGIC yn argymhell cynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd rheolaidd i'r holl staff fel arfer da, oherwydd eu bod yn rhoi sicrwydd annibynnol a fyddai'n cynyddu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad unigolion.

Roedd dwy o'r ffeiliau staff a adolygwyd gennym yn nodi nad oedd arfarniad blynyddol wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Fe'n hysbyswyd gan yr uwch-reolwyr y byddai'r arfarniadau a oedd yn weddill yn cael eu cwblhau yn ystod y mis sydd i ddod.

Roedd hefyd yn amlwg nad oedd pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Fe'n hysbyswyd bod goruchwyliaeth grŵp fisol a goruchwyliaeth unigol newydd ddechrau. Rhaid rhoi system ar waith sy'n gallu monitro a chofnodi cyfraddau cydymffurfio mewn perthynas â goruchwyliaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd.

Camau gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad i AGIC ynghlŷn â'r rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff Ysbyty Rushcliffe er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r deunyddiau hyfforddi ar gyfer staff Ysbyty Rushcliffe er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion sy'n derbyn gofal yn yr ysbyty.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y staff sy'n gweithio yn Ysbyty Rushcliffe.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system reolaidd a strwythuredig er mwyn i'r staff dderbyn goruchwyliaeth.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd adborth cleifion am breifatrwydd ac urddas yn Rushcliffe yn gadarnhaol, ac nid oedd gan rai cleifion unrhyw broblem yn y maes hwn. Dywedodd yr holl gleifion fod staff yn parchu eu preifatrwydd ac urddas trwy guro ar ddrws eu hystafell wely cyn mynd i mewn.

Gallai cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat, naill ai drwy ddefnyddio'r ffôn talu neu, ar gyfer rhai cleifion, eu ffonau symudol eu hunain. Roedd ystafell ymwelwyr ar gael yn y dderbynfa er mwyn i'r cleifion allu cyfarfod â theulu a ffrindiau.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd y cyfleusterau a oedd ar gael yn Ysbyty Rushcliffe ar gyfer gweithgareddau a therapïau cleifion yn ardderchog ac yn addas ar gyfer lleoliad adsefydlu iechyd meddwl i oedolion. Roedd y cyfleusterau'n cynnwys cegin ar gyfer y cleifion, ystafell gerddoriaeth gydag offerynnau, ystafell gemau gyda bwrdd pŵl, ystafell gelf gydag adnoddau, amlgampfa, a stiwdio gwaith coed a ddatblygwyd yn ddiweddar ac a fydd yn agored i gleifion yn amodol ar asesiad risg unigol. Fodd bynnag, er bod y cyfleusterau hyn yn bresennol yn Rushcliffe yn ystod ein harolygiad, nid oeddent yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Fe'n hysbyswyd nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio cyfarpar y gampfa am ei fod wedi'i brynu'n ail-law, ac felly nid oedd y sefydliad yn gallu bod yn sicr bod y cyfarpar yn addas i'r diben. Roedd angen prynu cyfarpar newydd, ac nid oedd hyn wedi'i wneud.

Nododd y cleifion nad oedd llawer y gallent ei wneud yn yr ysbyty gan nad oedd y cyfleusterau'n cael eu defnyddio digon. Fe'n hysbyswyd y byddai mwy o weithgareddau ar gael i gleifion ar ôl i therapydd galwedigaethol a chydgysylltydd gweithgareddau gael eu recriwtio. Byddai'r therapydd galwedigaethol yn arwain y rhaglen weithgareddau er mwyn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysbyty Rushcliffe.

Dywedodd rhai aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'n well ganddynt weld mwy o gyfleoedd therapiwtig a galwedigaethol i gleifion. Byddai'n fuddiol pe bai gweithgareddau adsefydlu yn Ysbyty Rushcliffe yn ymgysylltu â'r gymuned leol. Roedd yn gadarnhaol nodi hefyd bod un claf wedi bod yn gwneud gweithgareddau adsefydlu gyda chwmni lleol.

Roedd yn gadarnhaol clywed rhai cleifion yn dweud eu bod yn gallu mynd i'r gymuned fel rhan o'u hadsefydliad, a'u bod yn gallu gwneud gweithgareddau yno, gan gynnwys seiclo a mynychu'r gampfa leol. Gwelsom hefyd gleifion yn mynd at y gymuned er mwyn siopa am eitemau personol ac i brynu cynhwysion i wneud prydau bwyd a byrbrydau yn yr ysbyty.

Camau gofynnol

Mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu'r gweithgareddau ar gyfer cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r grŵp cleifion, a'u bod yn alwedigaethol a/neu'n seiliedig yn y gymuned lle bo'n bosibl, er mwyn gwella'r model adsefydlu mae'r ysbyty'n ei hyrwyddo.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar sy'n addas i'r diben yng nghampfa'r ysbyty.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cydgysylltydd gweithgareddau'n cael ei recriwtio.

Bwyd a maeth

Yn gyffredinol, roedd trafodaethau gyda chleifion ac aelodau staff yn dangos ymateb cadarnhaol am y bwyd oedd yn cael ei weini yn Rushcliffe. Rhoddid brecwast a chinio llawn wedi'i goginio i'r cleifion. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o'r fwydlen a ddarperir bob dydd.

Fel y digwyddodd yn ystod ein harolygiad ym mis Chwefror, roedd pob claf yn yr ysbyty'n paratoi ei bryd bwyd gyda'r nos ei hun. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oedd y cleifion yn paratoi prydau; roeddent yn paratoi byrbrydau megis ffa pob ar dost. Roedd y rhesymeg y tu ôl i adael y cleifion i wneud eu prydau bwyd eu hunain yn adlewyrchu'r ffaith mai gwasanaeth adsefydlu ydyw. Fodd bynnag, nid oedd y prydau bwyd nos wedi eu cydlynu rhyw lawer, ac felly roedd y cleifion yn paratoi byrbrydau yn hytrach na phrydau bwyd nos.

Gwnaethom nodi bod cleifion yn gallu paratoi swper hefyd. Gyda'r nos ac yn hwyrach yn y nos, gwelsom gleifion yn helpu eu hunain i dost a grawnfwydydd. Dywedodd llawer o gleifion eu bod yn aml yn teimlo'n llwglyd gan mai dim ond byrbrydau yr oeddent yn eu paratoi gyda'r nos, ac felly roeddent yn bwyta drwy'r noswaith i gyd cyn mynd i'r gwely. Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer prydau bwyd yn hybu bwyta'n iach ar bob adeg o'r dydd.

Roedd llawer o gleifion a staff yn teimlo nad oedd y broses o gael cleifion i baratoi eu pryd bwyd gyda'r nos gyda'i gilydd yn gweithio fel y bwriadwyd. Rydym yn teimlo y dylai prydau bwyd gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng darparu prydau bwyd i'r cleifion a chael cleifion i baratoi eu prydau eu hunain fel rhan o weithgaredd adsefydlu.

Roedd gan gleifion adnoddau i brynu a storio eu bwyd eu hunain. Roedd y cleifion yn gallu helpu eu hunain i ddiodydd poeth ac oer drwy'r dydd a'r nos.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth o fwyd yn Ysbyty Rushcliffe er mwyn sicrhau, os yw cleifion yn paratoi eu prydau bwyd eu hunain, bod hyn yn rhan o raglen adsefydlu strwythuredig a rhaglen bwyta'n iach.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Ers ein harolygiad ym mis Chwefror, roedd yn gadarnhaol nodi bod gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi derbyn swyddfa neilltuedig i wneud ei waith. Roedd Ysbyty Rushcliffe hefyd wedi recriwtio derbynnydd, a oedd wedi cymryd awenau rhai o'r dyletswyddau clericio yr oedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn eu gwneud gynt. Roedd y ddau newid hyn wedi galluogi gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl i dreulio mwy o amser yn gwneud ei swydd benodol ef.

Roedd yn siomedig nodi nad oedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi gallu cael unrhyw hyfforddiant ers ein harolygiad diwethaf. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod y darparwr cofrestredig wedi dod o hyd i hyfforddiant priodol, a'i fod yn trefnu amser priodol i weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ei fynychu.

Wrth wneud gwaith dilynol ar ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol, nodwyd bod y ddogfennaeth statudol wedi'i storio mewn man dan glo pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Roedd ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 yn cael eu cadw gyda dogfennaeth statudol cleifion, ac roedd copïau o'r ffurflenni ar gael yn swyddfa'r ward. Nodwyd bod prosesau wedi cael eu datblygu i roi hawliau o dan Adran 132 ac i asesu galluedd.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael mynediad at hyfforddiant priodol er mwyn iddo allu gwneud ei swydd.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth yn Rushcliffe a nodi bod rhai adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth heibio eu dyddiad. Er bod y cydgysylltydd gofal enwebedig yn allanol i Ysbyty Rushcliffe, prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael i gadarnhau pa ymdrechion a wnaed i ddatrys oedi o ran cynlluniau gofal a thriniaeth.

Nid oedd y cynlluniau triniaeth a gofal yn ddigon manwl, ac nid oedd digon o wybodaeth ynddynt i sicrhau y byddai gan y staff a oedd yn eu darllen ddigon o wybodaeth i ddarparu gofal i'r claf heb adolygu dogfennau cynllunio gofal eraill.

Yn gyffredinol, roedd diffyg trefn ar y dogfennau cynllunio gofal; roedd gwybodaeth wedi'i gwasgaru ar draws nifer o wahanol setiau o ddogfennau yn ymwneud â chlaf. At hynny, roedd meysydd lle roedd gwybodaeth wedi'i dyblygu, ond roedd hefyd tystiolaeth o hepgor gwybodaeth. Roedd dirprwy reolwr yr ysbyty yn adolygu'r prosesau a'r systemau ar gyfer cadw cofnodion, er mwyn sicrhau bod cysondeb yn hynny o beth.

Roedd yn amlwg bod pwyslais ar fonitro iechyd corfforol, ond dim ond dirprwy reolwr yr ysbyty oedd yn gallu cymryd gwaed cleifion. Cynhelid 'clinig' iechyd corfforol bob wythnos gan y meddyg, ac roedd yn cynnwys lefel glwcos gwaed, pwysedd gwaed, mynegai màs y corff, ayyb.

Pan oedd claf yn gwrthod mynychu clinig wythnosol, nid oedd tystiolaeth o'r ymchwil a wnaed ar ôl hynny er mwyn cael cydymffurfiaeth â gwiriadau corfforol. Nid oedd gwybodaeth ychwaith i nodi pa gamau a gymerwyd gan y staff o'r herwydd. Hefyd, prin oedd yr hyfforddiant oedd ar gael ynglŷn â chymhlethdodau iechyd corfforol a oedd yn berthnasol i'r grŵp cleifion a oedd yn derbyn gofal yn Ysbyty Rushcliffe.

Roedd dirprwy reolwr yr ysbyty am i'r ysbyty gadw 'blwch cyffuriau brys' a fyddai'n cynnwys y cyffuriau cyntaf y dylid eu defnyddio mewn argyfyngau corfforol, megis anaffylaxis. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gwblhau ar adeg ein harolygiad.

Camau gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r dogfennau cynllunio triniaeth a gofal er mwyn sicrhau eu bod yn dangos ac yn cofnodi'r holl wybodaeth briodol ynglŷn â gofal cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod blwch cyffuriau brys yn cael ei ddarparu.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Rushcliffe gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Rushcliffe yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr: Gofal Iechyd Rushcliffe
Lleoliad: Ysbyty Rushcliffe
Dyddiad yr arolygiad: 23-24 Mehefin 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu Ruhscliffe	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
9	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y risg clymiad yn cael ei gwaredu.	26(2)(a)	Gosod cwpwrdd i leihau'r risg, a bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.	Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth) Steven Radmore (cynnal a chadw)	08/08/2015
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad i AGIC ynglŷn â'r broses recriwtio ar gyfer y	20(1)(a)	Wedi recriwtio digon o nyrsys i'r gwasanaeth allu gweithredu'n effeithlon. Mae swydd y therapydd galwedigaethol wedi'i llenwi.	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig)	30/08/2015 Wedi'i gwblhau, ac eithrio'r

	swyddi a nodir uchod.		Mae'r broses glirio ar gyfer x3 o weithwyr cymorth drwy'r broses recriwtio yn barhaus. Dim ond swydd yr arweinydd gweithgareddau sy'n dal i fod yn wag.		swyddi banc a gweithgareddau.
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad i AGIC ynglŷn â'r rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff Ysbyty Rushcliffe er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.	20(2)(a)	Mae hyfforddiant gorfodol yn barhaus; bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu, a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol yn cydymffurfio 90% erbyn 30 Awst 2015. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei gynllunio ymlaen llaw yn ystod pythefnos gyntaf mis Medi. Bydd matrices hyfforddiant cymhwysedd llawn yn adlewyrchu'r ffocws iechyd meddwl ac adsefydlu ar gyfer y staff.	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig) Kym Godfrey (rheolwr y ganolfan hyfforddiant) Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth)	15/09/2015 Bydd yr adroddiad diwygiedig yn cael ei anfon erbyn 15/09/15. 16/08/2015
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r deunyddiau hyfforddi ar gyfer staff Ysbyty	20(2)(a)	Mae'r adolygiad yn cael ei wneud ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei orffen erbyn 31/08/2015.	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig)	15/09/2015

	Rushcliffe er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion sy'n derbyn gofal yn yr ysbyty.		Yna, bydd rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yn cael ei threfnu dros rota dreigl 12 mis, gyda chyfraniadau gan y tîm ysbyty a hyfforddiant.	Kym Godfrey (rheolwr y ganolfan hyfforddiant)	
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y staff sy'n gweithio yn Ysbyty Rushcliffe.	21(2)(a)	Cwblhawyd yr holl wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac yn unol ag arferion gorau, fe'u hadolygir bob tair blynedd.	Amy Wiltshire (derbynnydd)	30/07/2015
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system reolaidd a strwythuredig er mwyn i'r staff dderbyn goruchwyliaeth.	20(2)(a)	Mae'r strwythur goruchwyliaeth ar waith, ac mae staff yn derbyn goruchwyliaeth fel y cynlluniwyd, trwy oruchwylwr neilltuedig. Arferion myfyriol a gwersi a ddysgwyd – grŵp JM (misol)	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig) Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth)	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus (Gweler y siart lif isod)
12	Mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu'r gweithgareddau ar gyfer cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r	15(1)(a)	Mae gennym therapydd galwedigaethol profiadol sy'n adolygu'r gweithgareddau ar gyfer y cleifion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r tîm	Tracey Bryant (therapydd galwedigaethol) i arwain penderfyniad y	Yn parhau

	grŵp cleifion, a'u bod yn alwedigaethol a/neu'n seiliedig yn y gymuned lle bo'n bosibl, er mwyn gwella'r model adsefydlu mae'r ysbyty'n ei hyrwyddo.		<p>amlddisgyblaethol yn trafod gweithgareddau galwedigaethol neu weithgareddau sy'n seiliedig yn y gymuned fesul claf, ac yn eu prosesu yn unol â hynny.</p> <p>Caiff yr holl gynlluniau unigol ar gyfer gweithgareddau therapiwtig neu weithgareddau a leolir yn y gymuned eu cynllunio yn unol â hynny.</p> <p>Yn ddibynnol ar hygyrchedd a galluoedd gwybyddol/emosiynol, a allai arwain at asesiadau risg amgylcheddol a risgiau mesuredig; gyda chanlyniadau, ac yn grymuso, sy'n fuddiol.</p>	tîm amlddisgyblaethol a'r broses.	
12	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar sy'n addas i'r diben yng nghampfa'r ysbyty.	15(2) 26(2)(c)	<p>Bydd y cyfarpar yn y gampfa'n cael ei dynnu oddi yno, a bydd cyfarpar penodol yn unig yn cael ei roi yno.</p> <p>Caiff mynediad at glybiau iechyd ac ymarfer corff ar feiciau yn y gymuned eu hadolygu yn ôl dilysrwydd a</p>	Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth) Steven Radmore (cynnal a chadw)	31/08/2015

			chydreddoldeb o ran mynediad i'r cleifion yn gyffredinol.		
12	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cydgysylltydd gweithgareddau'n cael ei recriwtio.	20(1)(a)	Yn fewnol a'r ganolfan byd gwaith; bydd hysbyseb yn y papur lleol yn cael ei osod yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10/08/2015. Cynhelir y cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 31/08/2015.	Tracey Bryant (therapydd galwedigaethol) Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig)	01/09/2015
13	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth o fwyd yn Ysbyty Rushcliffe er mwyn sicrhau, os yw cleifion yn paratoi eu prydau bwyd eu hunain, bod hyn yn rhan o raglen adsefydlu strwythuredig a rhaglen bwyta'n iach.	16(9)(b)	Ni wnaeth arolwg cleifion a gynhaliwyd ym mis Mehefin dynnu sylw at unrhyw bryderon yn ymwneud â'r bwyd a ddarperid. Fodd bynnag, ni all rhai cleifion (oherwydd eu galluoedd/medrau) baratoi bwyd heb ymyriadau uniongyrchol gan y staff. Mae ffactorau eraill yn cynnwys 'eisiau ymgysylltu neu baratoi prydau bwyd', yn ogystal â gwybodaeth ddietegol. O dan y gyfarwyddeb ddewisiadau, byddwn yn galluogi unigolion i baratoi eu bwyd eu hunain yn	Tracey Bryant (therapydd galwedigaethol) Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig) Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth)	Medi 2015

			ogystal â grwpiau (o dan amserlen strwythuredig), a gallai hyn roi awtonomiaeth i'r cleifion presennol, a dewis ynglŷn â pharatoi prydau bwyd ac opsiynau bwyta'n iach.		
14	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael mynediad at hyfforddiant priodol er mwyn iddo allu gwneud ei swydd.	20(2)(a)	Mae'r hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y personél perthnasol. Hefyd, bydd yn ennill profiad, oherwydd bydd yn cysgodi gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl allanol profiadol.	Philip Maliphant (Rheolwr y Gwasanaeth) Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Tachwedd 2015
15	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r dogfennau cynllunio triniaeth a gofal er mwyn sicrhau eu bod yn dangos ac yn cofnodi'r holl wybodaeth briodol ynglŷn â gofal cleifion.	23(1)(a)(i) 23(1)(a)(ii)	Bydd y ddogfen Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael ei llunio erbyn 11/09/2015, ac wrth dderbyn, bydd unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau'n cael eu gwneud drwy adolygiadau'r tîm amlddisgyblaethol neu mewn adolygiadau tribiwnlys. Bydd archwiliadau mewnol gan y rheolwyr hefyd yn cael eu rhoi ar waith i wella dogfennaeth, a	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig) Y tîm amlddisgyblaethol Tîm y nyrsys	Yn parhau

			sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r gofynion.		
15	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod blwch cyffuriau brys yn cael ei ddarparu.	15(5)(a)	Bydd hwn ar gael i'r tîm unwaith y mae'r staff allweddol wedi derbyn y protocolau lleol a hyfforddiant. Rhoddir arweiniad yn uniongyrchol gan y rheolwr cofrestredig.	Vaughan Bater (rheolwr cofrestredig penodedig)	01/10/2015

RUSHCLIFFE SUPERVISION FLOWCHART

